

Wrth iddynt 'ddod yn fwy medrus

Patrymau a Llwybrau

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Chwaraewch gyfeiliant penodol i symblu'r plant i ymateb drwy symudiadau
- Anogwch y plant i:
 - Ddefnyddio sgiliau anos yn eu dawnsiau, e.e. sgipio, llamu, ac ati
 - Ymarfer eu dawnsiau
 - Archwilio hwyliau a theimladau gan ddefnyddio symudiadau syml
 - Archwilio creu cymalau hwy, mwy diddorol sydd â safleoedd dechrau a gorffen pendant ac sy'n cyfleu agwedd benodol ar y stori
 - Archwilio newidiadau o ran dynameg, e.e. cryf/gwan, cyflym/araf, llyfn/herciog, mawr/bach, ac ati
 - Defnyddio'r Dull Burdd Stori i uno cymalau byr o symudiadau â'i gilydd i greu dawns sydd â dechrau, canol a diwedd
 - Archwilio ffordd o orffen y ddauns, e.e. yn sownd ar y creigiau, wedi eu chwythu allan i'r môr, yn ôl â'u traed ar dir sych, ac ati



Dechrau



Canol



Diwedd

Adnoddau

- Llyfr stori 'Y Parti ar y Traeth'
- Lluniau o'r llyfr
- Clipiau sain o'r llyfr
- Bwcedi, rhofiau, basged bicnic, tywelion, creaduriaid y môr, peli glan môr, barcutiaid, balŵns
- Marcwyr dros dro
- Tywod, dŵr
- Rhaffau sgipio

Cwestiynau

- Pa weithrediadau dawns sylfaenol sydd fwyaf addas i'r rhan hon o'r ddauns yn eich barn chi?
- Sut gallwch chi deithio a guneud ystumiau ar yr un pryd?
- Sut gallwch chi ddefnyddio ystum a llonyddwch i wella eich mynegiant?
- Sut gallwch chi newid y cymal, e.e. drwy ei ailadrodd ar gyflymder gwahanol?

Geiriau allweddol

- Cysylltu, yn llyfn, â rhyddineb
- Dychmygu, archwilio, mynegi, creu
- Teithio, troi, neidio, ystum, llonyddwch
- Newidiadau o ran cyfeiriad, lefel, cyflymder, llwybr, siâp
- Cymalau posibl - 'llwytho'r car', 'cerdded dros y creigiau', 'ar y traeth', 'rhwbio eli haul ar y croen', 'neidio dros y tonnau', 'adeiladu castell tywod', 'cerdded fel cranc', 'stopio'n stond', 'ochrgamu a gwau eu ffordd ar draws y traeth', 'dawnsio a guibio', 'troelli a disgyn', 'SNAP', 'plymio, hyrddio, chwyrtio, cylchdroi'

Cyfleoedd i:

- fynegi syniadau trwy ystod o symudiadau
- cysylltu cyfres o weithrediadau â'i gilydd â pheth rhyddineb i greu cymal dawns sy'n cynnwys eiliadau o llonyddwch ac ystum i wella mynegiant
- ailadrodd cymalau

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwysrau
- bod y plant yn gweithio yn eu 'swigod'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn mynegi syniadau trwy ystod o symudiadau?
- Yn cysylltu cyfres o weithrediadau â'i gilydd â pheth rhywddineb i greu cymal dauws sy'n cynnwys eiliadau o lonyddwch ac ystum i wella mynegiant?
 - Yn ailadrodd cymalau?

gan amlaf

weithiau

Anogwch y plentyn i:

- ddefnyddio lluniau o'r stori i greu dilyniant neu furdd stori i'w helpu i greu cymal/motiff/dilyniant
- trafod pa syniadau/geiriau/lluniau o'r stori y byddai'n hoffi eu cynnwys fel ystum neu eiliadau o lonyddwch, a gweithio ar y rhain a datblygu gweithrediadau teithio i'w cysylltu nhw â'i gilydd
- datblygu 'ciwb symudiadau' fel ei fod yn dewis amrywiaeth o wahanol eiriau y mae'n eu hoffi. Yna, bydd y plentyn yn defnyddio'r ciwb i'w helpu i gyflwyno'i weithrediadau ar ffurf dilyniant
- gwyllo dauwsiau plant eraill. Gofynnwch iddo ddewis y symudiadau y mae'n eu hoffi ac y byddai'n gallu eu cynnwys yn ei gymal ei hun
- trafod pa eiriau y byddai'n hoffi eu mynegi/cyfleu, a pha weithrediadau y gallai eu defnyddio i ddangos y geiriau hynny
- dweud y gair wrtho'i hun wrth symud, yn Gymraeg a Saesneg

Anogwch y plentyn i:

- wneud pob adran yn hwy neu'n fwy diddorol, trwy ychwanegu mwy o weithrediadau neu gynnwys newidiadau o ran cyfeiriad, lefel, cyflymder, llwybr, ac ati
- ailadrodd pob adran â safleoedd dechrau a gorffen clir
- gurando ar y cyfeiliant ac ymateb yn briodol iddo
- dauwsio gyda phartner gan ddilyn yr arweinydd (y ddau blentyn fel y barcud, neu un plentyn fel y barcud ac un plentyn fel Tom, ac ati)
- trafod ansawdd ei symudiadau, e.e. sut gall ddangos y gwahaniaeth rhwng hedfan a llamu?

Cyfleoedd campus

- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Llafaredd – mynegi meddyliu, syniadau a theimladau, cyfathrebu ag eraill
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Yr arfordir yn erydu